*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 97 (Cy. 46)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Ionawr 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Chwefrorr 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 71, 128, 129, 130, 131 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2016 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 1986" ("*the 1986 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**2**);

ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**3**); ac

ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**4**).

**Diwygio Rheoliadau 1986**

**3.** Yn rheoliad 13(2)(q) o Reoliadau 1986, yn lle "31 March 2016" rhodder "31 March 2017".

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 1986/975 fel y'i diwygiwyd.
(**3**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.
(**4**) O.S. 2007/1104 (Cy. 116) fel y'i diwygiwyd.

**Diwygio Rheoliadau 1997**

**4.** Yn rheoliad 8(3)(q) o Reoliadau 1997, yn lle "31 March 2016" rhodder "31 March 2017".

**Diwygio Rheoliadau 2007**

**5.** Yn rheoliad 5(1)(aa) o Reoliadau 2007, yn lle "31 Mawrth 2016" rhodder "31 Mawrth 2017".

**Dirymu**

**6.** Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2015(**5**) wedi eu dirymu.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Ionawr 2016

(**5**) O.S. 2015/631 (Cy. 51).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 (1986/975) ("Rheoliadau 1986"), Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 (1997/818) ("Rheoliadau 1997") a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 (2007/1104 (Cy. 116)) ("Rheoliadau 2007").

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 1986 i estyn y cyfnod o amser y bydd derbynyddion credyd cynhwysol yn gymwys i gael profion golwg yn rhad ac am ddim hyd at fis Mawrth 2017.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau 1997 i estyn y cyfnod o amser y bydd derbynyddion credyd cynhwysol yn gymwys i gael taliadau i dalu'r costau am declynnau optegol, neu i gael taliadau i gyfrannu tuag at y costau hynny, hyd at fis Mawrth 2017.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau 2007 i estyn y cyfnod o amser y bydd derbynyddion credyd cynhwysol yn gymwys i gael eu treuliau teithio GIG wedi eu talu'n llawn ac i beidio â thalu ffi GIG hyd at fis Mawrth 2017.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2015 (2015/631 (Cy. 51)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.